**Emma Geddes** [Review Link - October 11, 2022 - Frame.io]

Cyflwyniad

Emma ydw i, ac rwy'n ymarferydd parafeddygol uwch, YPU, yn gweithio yn y gogledd yn ardal Sir y Fflint i Wasanaeth Ambiwlans Cymru. Rwy'n ymarferydd parafeddygol uwch o fewn model gweithio cylchol lle rydyn ni'n rhan o'r gwasanaeth ambiwlans, ac yn gweithio iddo'n glinigol ac yn weithredol mewn cerbydau ymateb cyflym. Rydym yn treulio 50% o'n hamser o fewn gwasanaethau gofal sylfaenol sydd ynghlwm â naill ai clwstwr meddygon teulu neu feddygfa unigol. O fewn y feddygfa rydym yn ymgymryd â thasgau gyda chleifion o ddydd i ddydd yn y practis, a gallwn wneud ymweliadau cartref ar gyfer y feddygfa hefyd; felly, rydyn ni'n adnodd hyblyg ar gyfer gofal sylfaenol. Dechreuodd y prosiect yn 2019 i fraenaru'r tir, gyda chyllid gan Addysg Iechyd yng Nghymru ac fe gafodd ei dreialu'n llwyddiannus gyda grŵp. Rwy'n credu bod naw o fy nghydweithwyr yn cylchdroi rhwng y gwasanaeth gofal sylfaenol a gwaith gweithredol gydag ambiwlans Cymru, ac oherwydd ei fod yn gymaint o lwyddiant, fe wnaethon nhw wedyn roi cyllid parhaol i ni i symud y gwasanaeth yn ei flaen i'r hyn ydyw heddiw.

Y Model

Cyflwynwyd y model gwaith cylchol yn 2019 ac ynddo mae ymarferwyr parafeddygol uwch yn gweithio ar dop eu trwydded glinigol (wedi'u ategu gan MSc mewn ymarfer clinigol uwch) i reoli, trin neu atgyfeirio cleifion yn annibynnol ac yn awtonomaidd; pontio'r bwlch gofal brys a gofal sylfaenol a dod â gofal yn nes at y cartref i gleifion, neu ei gadw'n nes at y cartref. Mae gan y model YPU botensial i symud cleifion i ffwrdd o ddarpariaeth gofal eilaidd a gwneud defnydd effeithiol o amser, gwella argaeledd ambiwlansys a lliniaru llwyth gwaith meddygon teulu.

Rhesymeg

Mae llawer o gyfleoedd o fewn gofal sylfaenol a gofal iechyd cymunedol i ehangu ein rôl. [01:02:13] Felly mae'n gyffrous iawn! (Efallai y dylwn ychwanegu hynny i mewn.) Mae modelau gweithio newydd fel hyn, y model YPU, wedi dod i'r amlwg yn sgil cyfnodau heriol, a diffygion a phrinder gofal iechyd drwy'r GIG cyfan, a gyda galwadau cynyddol ar y gwasanaeth 999 gwasanaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'n gwaethygu, ynghyd â'r pwysau yn y system gofal sylfaenol. Roedd angen ailgynllunio gwasanaethau ar gyfer ffyrdd cynaliadwy o weithio yn y dyfodol. Mae cynaliadwyedd o fewn gofal sylfaenol yn hanfodol drwy gynyddu nifer yr ymarferwyr

gofal iechyd ac ymwreiddio YPUau, ymarferwyr uwch fel fi, mewn practisau cyffredinol i helpu i gydbwyso llwythi gwaith, gan leddfu'r pwysau ar feddygon teulu, i weld a thrin achosion mwy cymhleth.

## Hyfforddiant a Datblygiad

Cafodd fy nghydweithwyr a minnau raglen addysg wedi ei harwain gan feddygon teulu oedd wedi ei theilwra’n arbennig ar ein cyfer ac mae wedi ein dilyn ar hyd ein taith drwy ymarfer cyffredinol ac mae'n helpu i’n hymgorffori i'r gwasanaeth gofal sylfaenol.

## Canlyniadau

Felly sut cafodd y model ymarferwyr cylchol uwch ei groesawu a'i dderbyn gan ddefnyddwyr gwasanaeth a chydweithwyr? Mae'n bendant yn cael ei groesawu a'i dderbyn gan gydweithwyr gofal sylfaenol, sydd wedi cofleidio'r newid. Rydym wedi ennill ymddiriedaeth a pherthynas dda o fewn y gwasanaethau gofal sylfaenol i ddatblygu ein cynlluniau rheoli cleifion a'n prosesau penderfynu. Mae'r profiad wedi bod yn anhygoel, gyda synnwyr gwych o strwythur tîm, sefydlogrwydd, cyd-barch â'n cydweithwyr mewn gofal sylfaenol. Rwy’n credu bod ymarferwyr uwch yn addas iawn ym maes gofal sylfaenol, a bod model gweithio YPU cylchol yn gwneud cyfraniad pwysig i'r sector gofal sylfaenol i leihau'r pwysau ar y GIG yn ei gyfanrwydd. Mae cydlynu gwasanaethau brys a gofal sylfaenol yn caniatáu i ymarferwyr parafeddygol uwch gael mynediad at systemau fel EMIS a Phorth Clinigol Cymru. Dydyn nhw ddim ar gael o fewn Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ac maen nhw'n cynorthwyo gyda chynlluniau rheoli cleifion a'r broses o wneud penderfyniadau mewn ffordd awtonomaidd ac arloesol.

## Dysgu Gwersi

Mae mentoriaeth a chefnogaeth glinigol ym maes gofal sylfaenol yn hollbwysig i gael ymarferwyr uwch i deimlo nad oes penderfyniad yn cael ei wneud mewn gwagle. [01:04:57] Mae'r galluoedd atgyfeirio lleol yn cael eu rhoi ar waith ac mae cleifion yn cael eu diogelu neu eu cyfeirio’n briodol. Gan fod yr YPU yn treulio mwy o amser yn y gwasanaeth gofal sylfaenol, mae set sgiliau unigolion yn datblygu wrth i’w rôl nhw ddatblygu, ac wrth i fy rôl i ddatblygu. Mae YPUau yn gynaliadwy, maen nhw'n werthfawr ac yn adnodd gofal iechyd cadarnhaol mewn gofal sylfaenol.

Casgliad

Gall meddygon teulu ganolbwyntio ar ailddiffinio eu rôl eu hunain a datblygu eu gwasanaethau a'u gofal ar gyfer eu cleifion os oes YOU yn gweithio o fewn eu practis. Fel YPUau, rydyn ni’n gweld ystod o ddemograffeg cleifion yn weithredol - cleifion cymhleth ac â salwch acíwt. Mae gennym gipolwg unigryw [sy'n datblygu] o fewn ein cefndiroedd parafeddygol. Mae gennym set sgiliau na allwch chi ei gymharu â phroffesiynau eraill o fewn y GIG, ac mae hynny'n benthyg ei hun yn dda i wasanaethau gofal sylfaenol. Mae gen i brofiad personol o hynny, ac mae wedi bod yn gadarnhaol o’m safbwynt i.